

Annwyl Aelod Panel,

Croeso i Gylchlythyr Cynnwys Casnewydd....



Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi adborth ar rai o'r pynciau y bu ymgynghoriad arnyn nhw yn ystod Arolygon Panel **Gaeaf** a **Gwanwyn** 2018 gan grynhoi 'beth ddwedoch chi wrthym' a'r 'hyn a wnaethom ni'. Darllenwch am ragor o wybodaeth!



Beth ddywedoch wrthym ni... Ymgysylltu

...Gweithgareddau Ymgynghori ac

Panel Dinasyddion

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (bron i 86%) fod y Panel Dinasyddion yn adnodd defnyddiol i rannu eich barn ar wasanaethau nawr ac yn y dyfodol, a chytunodd ychydig dros 58% fod y sylwadau hyn wedi eu hystyried wrth lunio gwasanaethau. Ynglŷn â'r cylchlythyr hwn, cytunodd y rhan fwyaf o'r bobl (mwy na 73%) fod yr adborth a roddir o gymorth i egluro sut y mae eich barn yn llunio gwasanaethau.

Gweithgareddau

Nododd dros hanner ohonoch chi eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu drwy ddigwyddiadau cyhoeddus neu drwy arolygon ehangach ar-lein.

Dylanwadau ar Benderfyniadau

Cytunodd y rhan fwyaf o'r bobl (48%) y gallwch ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n berthnasol i'ch ardal leol, a dim ond 19% a anghytunodd.

Yr hyn a wnaethom ni...

Defnyddir eich adborth i gefnogi arolwg o drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu yn y cyngor, gan ystyried y gofynion presennol, adborth o'r Gwaith Craffu ar y Cyngor ynghyd ag enghreifftiau o arfer da, er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu.

**Beth ddywedoch wrthym ni / Yr hyn a wnaethom ni....
... Gwasanaeth Cymorth i Bobl sy'n 55 oed ac yn hŷn**



Beth ddywedoch chi: Roedd 93% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cyflwyno gwasanaeth cymorth fel y byddai gan bobl hŷn yng Nghasnewydd y cyfle i fanteisio ar wasanaeth cymorth am ddim.

Yr hyn a wnaethom ni: Mae'r Cyngor wedi comisiynu Age Cymru Gwent i ddarparu gwasanaeth newydd o'r enw "Goleudy 55+" a fydd yn cynnig gwasanaeth cymorth yn ymwneud â thai i bobl sy'n 55 oed ac yn hŷn ac sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd y gwasanaeth, sydd am ddim, yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018. Bydd gwybodaeth am y gwasanaeth newydd gan gynnwys sut i gael gafael ar "Goleudy 55+" ar gael gan Dîm Cynorthwyo Pobl y Cyngor (01633 235201 / supporting.people@newport.gov.uk).

Beth ddywedoch chi: Dywedodd 85% o'r ymatebwyr y dylai'r gwasanaethau cymorth fod yn hyblyg ac yn gweithredu y tu allan i oriau gwaith arferol.

Yr hyn a wnaethom ni: Mae'r Cyngor wedi cytuno ag Age Cymru Gwent y dylai'r gwasanaeth newydd fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion trigolion Casnewydd ac felly bydd yn treialu oriau gwaith estynedig h.y. o 8am i 8pm yn ystod yr wythnos ac o 10am i 1pm ar ddydd Sadwrn (drwy apwyntiad yn unig).

Beth ddywedoch chi: Dywedodd dros 90% o'r ymatebwyr y dylai'r gwasanaeth cymorth gynnwys rhyw elfen o gymorth ar gyfer achosion brys ac argyfwng.

Yr hyn a wnaethom ni: Caiff gweithiwr Age Cymru Gwent ei leoli yn Nhîm Cefnogi Pobl y Cyngor a bydd yn gyfrifol am asesu anghenion cymorth pawb sy'n gofyn amdano gan y gwasanaeth newydd. Rhoddir blaenoriaeth i bobl sydd mewn sefyllfa argyfwng neu pan fo angen cymorth brys.

Beth ddywedoch chi: Dywedodd dros 28% o'r ymatebwyr y dylai'r gwasanaethau gynnwys darpariaeth cymorth ar lefel is am dymor hirach.

Yr hyn a wnaethom ni: Ni fydd terfyn amser ar ba mor hir y gall pobl ddefnyddio'r gwasanaeth cymorth, bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau personol pob unigolyn. Pan na all Age Cymru Gwent roi cymorth, bydd yn ceisio gweithio gyda'r unigolyn i ddod o hyd i ateb arall er mwyn diwallu ei anghenion.

Beth ddywedoch chi: Dywedodd dros 88% o'r ymatebwyr y dylai'r gwasanaeth cymorth gynnig sesiynau galw heibio /cynghori.

Yr hyn a wnaethom ni: Yn ogystal â'r oriau gwaith estynedig a gaiff eu treialu gyda "Goleudy 55+" (gweler uchod) bydd y Cyngor ac Age Cymru Gwent yn asesu'r galw am wasanaethau galw heibio yn y misoedd nesaf. Cynigir gwasanaeth galw heibio i "Goleudy 55+" os nodir bod angen y math hwn o wasanaeth. Mae Age Cymru Gwent eisoes yn cynnig Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor o'i swyddfeydd yng nghanol dinas Casnewydd sydd ar gael yn ystod oriau gwaith arferol.

Beth ddywedoch wrthym ni...

... Cynllun Ardal Rhanbarthol

Fe wnaethom ofyn ichi am eich barn ar y cynllun iechyd a lles rhanbarthol (i'r Ardal) ac a ydym ni wedi nodi'r blaenoriaethau priodol i wella canlyniadau ar gyfer pobl, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed megis Plant sy'n Derbyn Gofal, Pobl Hŷn a Phobl sy'n byw â dementia.



Dywedoch chi wrthym fod y Cynllun Ardal yn canolbwyntio ar bobl sydd angen cymorth (cytunodd 91%) a bod y cynllun yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod partneriaid yn gweithio ar y cyd (cytunodd 84%). Fe wnaethoch gytuno y dylem roi pwyslais ar ymyrraeth gynnar a hyrwyddo byw'n annibynnol, yn ogystal â chefnogi'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl ifanc, oedolion a phlant a phroblemau iechyd meddwl, anabledau dysgu, pobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr a phobl sy'n dioddef o drais rhywiol a cham-drin domestig. Felly, mae angen cymorth ar y bobl hynny i gyd heb oedi.

Yr hyn a wnaethom ni....

Rydym ni wedi cyflwyno newidiadau i'n Cynllun Ardal terfynol ac wedi ystyried yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud wrthym er mwyn sicrhau ein bod wedi rhoi blaenoriaeth i'r angen am gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth a hefyd i osgoi gweithio ar wahân. Gwnaed hyn drwy ddatblygu rhwydweithiau lles integredig fel y gall cysylltwyr cymunedol weithio gyda meddygon teulu i gefnogi pobl, yn ogystal â chyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar draws y bwrdd iechyd, yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

Roeddem yn gwrandao arnoch chi pan ddywedoch wrthym ni i ddarparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer lles pob hŷn ac mae'r Bwrdd Dementia yn gweithio i ddatblygu Cymunedau sy'n Deall Dementia i sicrhau bod cymorth ar gael yn ogystal â dealltwriaeth. Rydym ni wedi datblygu strategaeth pontio cenedlaethau sy'n dod â phobl hŷn a phobl ifanc at ei gilydd i helpu i leihau unigrwydd.

Rydym ni wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol i ddatblygu dull cymunedol newydd o gefnogi plant sydd â phroblemau iechyd meddwl a fydd yn gwella'r posibiladau i weld ymarferydd yn y gymuned.

I gael rhagor o fanylion, gweler y Cynllun Ardal terfynol yma <http://www.bprgwent.cymru/home>.

Beth ddywedoch wrthym ni...

... Diogelwch yng Nghasnewydd

Roedd mwyafrif yr ymatebion i arolwg y llynedd (Gorffennaf 2018) yn anghytuno bod yr heddlu a'r cyngor yn ymdrin â throseddau / ymddygiadau gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus yn eich ardal (40%) o'i gymharu â llai na 34% a oedd yn cytuno, sy'n wahanol i'r canlyniadau ar yr un adeg yn 2017 (roedd llai na 51% yn cytuno).

Roedd aelodau'r panel hefyd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol a hynny bob awr o'r dydd, ond mae'r ffigur wedi gostwng o'i gymharu ag un 2017. Yng nghanol y ddinas roedd mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd (68%) na gyda'r nos (24%). Roedd barn ar yr heddlu yn yr ardal leol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda'r datganiadau, yn amrywio rhwng dros 78% (trin â pharch) a 38% (delio â phethau sydd o bwys).

Yr hyn a wnaethom ni...

Byddwn yn parhau i ddefnyddio eich adborth i gael barn y cyhoedd o ran diogelwch yng Nghasnewydd ac i gefnogi'r ymyraethau a nodwyd yng [Nghynllun Lles Casnewydd 2018-23](#) a gwaith Casnewydd Mwy Diogel. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn ategu'r adborth a gasglwyd drwy Arolwg Eich Llais, a gynhelir gan Heddlu Gwent.

Beth ddywedoch wrthym ni...

... Canfyddiadau o Gasnewydd

Mae eich adborth yn dangos bod canfyddiad y cyhoedd o Gasnewydd wedi gwaethygu o'i gymharu â'r un adeg y llynedd ond mae'n dal i fod yn well na 5 mlynedd yn ôl (Ebrill 2013).

Mae nifer y bobl sy'n ystyried bod Casnewydd yn lle da i fyw ynddo wedi gostwng ychydig o'i gymharu â 2017 (54% i lawr o 56%), ond mae'n uwch na 2013 (43%).

Mae nifer y bobl sy'n ystyried bod Casnewydd yn dod yn well le i fyw ynddo wedi gostwng o'i gymharu â 2017 (48% i lawr o 59%), ond mae'n uwch na 2013 (25%).

Mae nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn falch o fod o Gasnewydd wedi gostwng o'i gymharu â 2017 (37% i lawr o 42%), ond mae'n uwch na 2013 (33%).

Yr hyn a wnaethom ni....

[Cynnig Casnewydd](#) yw un o'r ymyriadau a amlinellir yng [Nghynllun Lles Casnewydd 2018-23](#) a'i nod yw gweithio tuag at wneud Casnewydd yn lle y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a buddsoddi ynddo, yn ogystal ag ymweld ag ef. Mae'r gwaith o nodi camau gweithredu i gyflawni'r camau yn y cynllun yn parhau, ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gobeithio y bydd hyn yn gwella canfyddiadau'r cyhoedd o'r ddinas a'i gwneud yn fwy deniadol i fusnesau ac ymwelwyr. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf ar y cynnydd a wnaed gennym ni gyda'r Ymyriad hwn ar y cyd â'r pedwar ymyriad arall a nodir yn y cynllun.

Diolch!!!

Diolch yn fawr i bob un ohonoch chi a gwblhaodd yr Arolygon Gaeaf a Gwanwyn, rydym ni wir yn gwerthfawrogi'ch adborth. Dyma gyfraddau ymateb terfynol y ddau: Gaeaf (28%, 187 o ymatebion); a Gwanwyn (32%, 234 o ymatebion).

Cysylltu â ni

E-bost: one.newport@newport.gov.uk neu Ffôn: (01633) 656 656

Gwefan: www.onenewportlsb.newport.gov.uk neu dilynwch ni ar Twitter [@OneNewport](https://twitter.com/OneNewport).